Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Sut rydym yn gwneud yng Nghymru?

## Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd am Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws

**Wythnos 27 (5ed i 11eg o Hydref 2020)**

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Cefndir

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd dros y ffôn yn gofyn i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sut mae coronafeirws a mesurau rheoli cysylltiedig yn effeithio ar eu hiechyd a'u lles.

Mae'r arolwg yn cyfweld tua 600 o unigolion a ddewiswyd ar hap bob yn ail wythnos. Mae'r wybodaeth a gesglir yn sail i'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiadau bob pythefnos. Caiff data arolwg eu haddasu i gynrychioli poblogaeth Cymru yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd.

Ymhob wythnos arolwg, ychwanegir rhai cwestiynau a chrëir eraill, yn dibynnu ar faterion sy'n dod i'r amlwg. Mae adroddiad yr wythnos hon yn cynnwys nifer o gwestiynau newydd, gan gynnwys: gwybodaeth am gyfyngiadau a chydymffurfio â hwy; pryderon am effeithiau coronafeirws dros misoedd y gaeaf; a chanfyddiadau o ymatebion coronafeirws yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys canfyddiadau cychwynnol o arolwg dilynol a gynhaliwyd gyda 383 o rieni a gwarchodwyr plant oedran ysgol sydd wedi cymryd rhan yn arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd yn flaenorol. Lle gofynnodd yr arolwg i gyfranogwyr am effeithiau cyfyngiadau coronafeirws ar les ac addysg eu plant dros wythnosau cychwynnol o fod wedi dychwelyd yn nôl i'r ysgol.

Rydym yn diolch i bobl Cymru am roi o'u hamser gwerthfawr i gynorthwyo'r gwaith yma.



# Prif ganfyddiadau'r wythnos hon

Cafodd 585 o drigolion Cymru sydd yn 18 oed ac yn hŷn eu cyfweld yn ystod wythnos 27 o'r arolwg (5ed i 11eg o Hydref).

## 76%

o bobl o'r farn eu bod yn fwy tebygol o ddal coronafeirws oddi wrth bobl nad oeddent yn eu hadnabod (e.e. mewn siopau, archfarchnadoedd a mannau cyhoeddus) na gan bobl maent yn eu hadnabod (e.e teulu a ffrindiau)

## 48%

o bobl yn dweud eu bod yn deall y cyfyngiadau yn eu hardal leol yn "dda iawn" a 37% arall yn "eithaf da."

## 27%

o bobl wedi bod yn poeni "llawer" am eu hiechyd meddwl a'u lles; i fyny o 21% ers yr arolwg diwethaf.

## 32%

o bobl yn dweud eu bod wedi gadael eu cartref i gwrdd â teulu a ffrindiau o leiaf unwaith yn ystod y 7 diwrnod diwethaf; wedi gostwng o 46% ers yr arolwg diwethaf.

## 47%

o bobl yn dweud eu bod yn dilyn cyfyngiadau coronafeirws yn "gyfan gwbl" a dywedodd 43% arall eu bod wedi cydymffurfio â'r mwyafrif *

## 70%

o bobl yn meddwl y byddwn dal i gael cyfyngiadau cloeon yn lleol ymhen chwe mis, ac mae 32% o fobl yn credu y byddwn mewn clo cenedlaethol ymhen chwe mis.

## 41%

o bobl yn pryderu "llawer" am eu gallu i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau dros y misoedd nesaf with i ni fynd fewn i fisoedd y gaeaf.

## 64%

o bobl o'r farn fod hyd at chwech o bobl yn cael cyfarfod y tu allan pebai ymbellhau cymdeithasol yn cael ei gynnal. Nododd 18% y nifer cywir fel 30 o fobl.

## 60%

O bobl yn ffafrio cyfyngiadau sy'n berthnasol I bawb er mwyn lleihau coronafeirws ar draws y boblogaeth; Byddai 40% o blaid amddiffyn bobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed tra'n gadael i'r gweddill ddychwelyd i fywyd normal.

* Cydymffurfiaeth mwyafrifol – sgoriau o 8 neu 9 ar raddfa o 1 i 10, lle nad yw 1 *o gwbl* a 10 *yn dilyn* y cyfyngiadau'n llwyr.

# Ynglŷn â coronafeirws

| | | |
|---|---|---|
| **Ydych chi'n meddwl fod ganddoch neu eich bod wedi cael coronafeirws?** | Do | 10% |
| | Ddim yn gwybod | 4% |
| **Ydych chi wedi cael eich profi am glefyd coronafeirws neu ydach chi wedi cael y prawf gwrthgyrff?** | Wedi cael prawf coronafeirws | 21% |
| | Wedi cael prawf gwrffgyrff | 6% |
| **Pa mor bryderus ydych chi y gallech gael coronafeirws?** *Yn cynnwys yr holl ymatebwyr* | Dim o gwbl | 23% |
| | Ychydig | 26% |
| | Gymedrol | 33% |
| | Hynod | 18% |

# Ynglŷn â coronafeirws

**Yn ystod y pythefnos diwethaf, a ydych chi neu unrhyw un arall yn eich cartref wedi ceisio cael prawf coronafeirws?**

Do 14%

**Dylech ofyn am brawf coronafeirws os oes gennych pa un o'r symptomau canlynol?**

| | |
|---|---|
| Cur pen | 18% |
| Tymheredd uchel | 92% |
| Dolur gwddf | 42% |
| Peswch parhaus newydd | 96% |
| Tisian a thrwyn yn rhedeg | 14% |
| Taflu fyny | 13% |
| Colli blas ac arogl | 95% |
| Dolur rhydd | 15% |

37% yn unig nododd y tri symptom hyn

# Ynglŷn â coronafeirws

## Ar hyn o bryd, faint o fobl yng Nghymru ydych chi'n meddwl sydd wedi'u heintio â chlefyd coronafeirws?




*Amcangyfrifodd cynllun peilot Arolwg Heintiau COVID-19 y Swyddfa Archwilio Cymru fod gan 1 o bob 500 o bobl yng Nghymru, yn yr wythnos a oedd yn dechrau ar 25ain o Fedi, coronafeirws (bwlch credadwy o 95%: 1 o bob 1,600 i 1 yn 200).
www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/bulletins/coronaviruscovid19infectionsurveypilot/previousReleases

## Ydych chi'n teimlo y byddech chi'n fwy tebygol o ddal coronafeirws oddi wrth....




Wythnos 27 (5ed i 11eg Hydref 2020)

# Pa mor dda ydym ni'n ymdrin â'r coronafeirws?

## Ydych chi'n meddwl fod y cyfyngiadau mewn lle ar gyfer rheoli'r coronafeirws yn…




| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yng anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Credaf fod Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r problemau a achoswyd gan y coronafeirws yn dda | 15% | 54% | 13% | 13% | 6% |
| Rwyf yn hyderus y byddai GIG yn gallu gofalu amdanaf yn ddigonol pebawn yn ddifrifol wael gyda coronafeirws | 26% | 52% | 10% | 9% | 3% |
| Rwyf yn hyderus y gwnaiff yr heddlu ddefnyddio eu pwerau i gyfyngu ar symudiadau pobl yn synhwyrol | 14% | 51% | 10% | 18% | 6% |

# Gwybodaeth a chydymffurfiaeth â chyfyngiadau

**Pa mor dda ydych chi'n teimlo eich bod yn deall y cyfyngiadau yn eich ardal ar gyfer ymbellhau cymdeithasol, gan gynnwys gyda phwy y gallwch gyfarfod a ble y gallwch gyfarfod?**




---

**Ar raddfa o 1 i 10 lle nad yw 1 o gwbl a 10 yn gyfan gwbl, faint fyddech chi'n ei ddweud yr ydych yn dilyn y cyfyngiadau?**

Dim o gwbl — Gyfan gwbl

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1% | 1% | <1% | <1% | 2% | 2% | 4% | 22% | 21% | 47% |

---

**Yn eich ardal chi, faint o fobl sy'n cael cyfarfod y tu allan os ydynt yn cynnal ymbellhau cymdeithasol?**

*Ymateb agored*




* Ymatebion o 1 i 5, 5%; 8 i 20, 3%; mwy na 30, 1%

# Ymbellhau cymdeithasol




## Credaf fod y rhan fwyaf o bobl yn dilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol




## Gan feddwl am y bobl rydych chi'n eu hadnabod yn bersonol, a fyddech chi'n dweud bod canllawiau ymbellhau cymdeithasol yn cael eu dilyn gan...



# Ap Trac ac Olrhain y GIG




O'r rhai ymatebodd gyda "na"*:

**Rhesymau dros beidio â llwytho'r ap i lawr**




*Data heb ei bwyso. ~ roedd tua hanner y rhesymau 'eraill' yn ymwneud â chyfranogwyr nad oeddent wedi cyrraedd y peth eto neu ddim yn teimlo eu bod ei hangen arnynt gan nad oeddent yn mynd allan.

# Diogelwch personol

## Pebai brechlyn ar gael a fyddai'n eich hamddiffyn rhag clefyd coronafeirws…

A fyddech chi'n bersonol eisiau cael eich brechu?




*I rai sydd â phlant ar yr aelwyd*:*

A fyddech eisiau i'ch plant gael eu brechu?




*Yn gyfyngedig i'r rhai sydd â phlant yn byw ar yr aelwyd; ac eithrio'r rhai a ymatebodd ' ddim yn berthnasol '; data heb ei bwysoli.

## Ar hyn o bryd pan fyddwch yn mynd allan, ydych chi'n gwisgo gorchudd gwyneb….

| | |
|---|---|
| Rhan fwyaf o'r amser | 72% |
| Peth o'r amser | 24% |
| Byth | 1% |
| Ddim yn berthnasol~ | 2% |

~ddim yn mynd allan / wedi heithrio

# Derbyn ymatebion i glefyd coronafeirws

## Pa rai o'r canlynol sydd yn dderbyniol yn eich barn chi?

| | Ydy | Nac ydy | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Pobl sy'n fwriadol anufuddhau i fesurau ymbellhau cymdeithasol yn cael eu dirwyo | 88% | 8% | 3% |
| Lefelau heintiau'n codi ychydig o ganlyniad i ddileu rhai cyfyngiadau | 60% | 29% | 11% |
| Pobl yn cael eu gwneud i wisgo gorchuddion gwyneb mewn mannau cyhoeddus fel siopau | 93% | 6% | 1% |
| Gorfodi cloeon lleol i reoli lledaeniad coronafeirws mewn ardaloedd ag achosion cynyddol | 85% | 11% | 4% |
| Gosod cwarantîn ar bobl sy'n dychwelyd o wledydd â lefelau uchel o glefyd coronafeirws | 94% | 4% | 2% |

# Sut ydym yn bihafio?

## Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, ar sawl diwrnod ydych chi wedi gadael eich cartref neu eich gardd?




## Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, ar sawl diwrnod ydych chi wedi gadael eich cartref?

| | 0 diwrnod | 1-2 diwrnod | 3-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|---|---|
| …i weithio | 58% | 6% | 7% | 29% |
| …i siopa | 23% | 53% | 12% | 12% |
| …am resymau meddygol | 73% | 26% | 1% | <1% |
| …i wneud ymarfer corff | 50% | 15% | 11% | 25% |
| …i gwrdd teulu / ffrindiau | 68% | 21% | 5% | 7% |
| …i fwyta mewn caffi, tafarn neu bwytŷ | 81% | 16% | 1% | 1% |
| …am ddiod mewn tafarn neu bar | 91% | 9% | 1% | <1% |

# Beth ydym yn boeni amdano?

**Dros yr wythnos diwethaf, faint mae'r canlynol wedi bod yn eich poeni?**

| | Dim o gwbl | Ychydig | Llawer |
|---|---|---|---|
| Mynd yn ddifrifol wael gyda coronafeirws | 40% | 38% | 23% |
| Colli rhywun agos atoch o'r feirws | 20% | 28% | 51% |
| Iechyd a lles eich plant*#~ | 22% | 26% | 52% |
| Addysg eich plant*#~ | 27% | 22% | 51% |
| Colli eich swydd neu methu dod o hyd i swydd#~ | 54% | 17% | 28% |
| Gwaith, er fod eich swydd yn saff#~ | 49% | 26% | 26% |
| Eich cyllid | 58% | 20% | 21% |
| Mynd allan mewn mannau cyhoeddus# | 37% | 39% | 24% |

*Yn gyfyngedig i'r rhai sydd â phlant ar yr aelwyd; ~Data heb ei bwysoli; #yn eithro rhai a ymatebodd yn 'amherthnasol'

# Beth ydym yn boeni amdano?

**Gan feddwl am y misoedd nesaf wrth i ni fynd fewn i fisoedd y gaeaf, pa mor bryderus ydych chi am effaith cyfyngiadau coronafeirws ar y canlynol?**

| | Dim o gwbl | Ychydig | Llawer |
|---|---|---|---|
| Eich gallu i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau | 31% | 29% | 41% |
| Eich gallu i ddiwallu eich anghenion sylfaenol (e.e. cael bwyd, gwresogi eich cartref) | 60% | 24% | 16% |
| Eich iechyd meddwl a'ch lles | 44% | 33% | 24% |
| Eich iechyd corfforol | 50% | 29% | 21% |
| Teimlo'n unig neu'n gymdeithasol ynysig | 61% | 25% | 15% |
| Eich cyllid | 59% | 23% | 18% |

# Beth ydym yn boeni amdano?

**Pan fyddwch yn meddwl am y cyfyngiadau sy'n dod i rym ledled Cymru, pa mor gryf, os o gwbl, ydych chi'n teimlo am bob un o'r canlynol?**

| | Dim o gwbl | Ychydig | Llawer |
|---|---|---|---|
| Ofn neu pryder | 47% | 34% | 19% |
| Ymdeimlad o ysbryd cymunedol | 32% | 41% | 27% |
| Rhwystredigaeth neu ddicter | 36% | 36% | 27% |
| Ymdeimlad o ryddhad | 51% | 35% | 15% |
| Ymdeimlad o anobaith | 56% | 31% | 13% |

Wythnos 27 (5ed i 11eg Hydref 2020)

# Edrych ymlaen

## Ymhen chwe mis, ydych chi'n meddwl….

| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Cawn frechlyn sy'n amddiffyn y rhan fwyaf o bobl rhag coronafeirws | 32% | 45% | 23% |
| Byddwn yn dal i gael cloeon yn lleol | 70% | 14% | 16% |
| Byddwn mewn clo cenedlaethol | 32% | 50% | 18% |
| Byddwn wedi dysgu byw gyda pobl yn cael eu heintio yn ein cymunedau | 76% | 14% | 9% |



# Sut ydych chi'n teimlo?

## Teimlo'n iach

| | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|
| **Pa mor iach ydych chi'n ei deimlo heddiw?**<br>0 = Yn afiach iawn; 10 = Yn hynod o iachus | 5% | 34% | 61% |

## Teimlo'n hapus

| | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|
| **Pa mor hapus ydych chi'n ei deimlo heddiw?**<br>0 = Ddim yn hapus o gwbl; 10 = Yn hynod o hapus | 8% | 29% | 63% |

## Teimlo'n bryderus

| | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|---|
| **Pa mor bryderus ydych chi'n ei deimlo heddiw?**<br>0 = Ddim yn bryderus o gwbl; 10 = Yn hynod o bryderus | 52% | 25% | 23% |

## Ymarfer corff

| | 0 diwrnod | 1-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|---|
| **Ar sawl diwrnod yn ystod yr wythnos diwethaf wnaethoch chi ymarfer corff am o leiaf 30 munud (digon i'ch gwneud chi allan o wynt)** | 33% | 35% | 31% |

# Sut ydych chi'n teimlo?

## Yn ystod yr wythnos diwethaf, pa mor aml ydych chi wedi teimlo'n……

| | Unig | Ynysig |
|---|---|---|
| Byth | 66% | 62% |
| Weithiau | 25% | 22% |
| Yn aml | 6% | 11% |
| Bob amser | 3% | 5% |

## Dros yr wythnos olaf, pa mor aml mae'r canlynol wedi eich poeni?

Eich iechyd meddwl a'ch lles

| | |
|---|---|
| Dim o gwbl | 46% |
| Ychydig | 27% |
| Llawer | 27% |

# Blaenoriaethau cyhoeddus

## I chi'n bersonol, beth yw'r blaenoriaeth fwyaf?




## Petaech yn un o lunwyr polisi a bod gennych £100 miliwn i'w wario ar draws y ddwy flaenoriaeth hyn, sut fyddechchi'n ei rannu?*




*Cyfran cymedrig

# Arolwg rhieni a gofalwyr - ar ddychwelyd  nôl i’r ysgol

Rhwng Medi 14eg a Hydref 2il, cynhaliwyd arolwg dilynol gyda sampl o rieni a gofalwyr plant oedran ysgol oedd wedi cymryd rhan yn yr arolwg cenedlaethol o ymgysylltu â'r cyhoedd. Gofynwyd yn yr arolwg am effeithiau cyfyngiadau coronafeirws ar les plant, addysg ac am deimladau plant am ddychwelyd yn nôl i'r ysgol.

Cymerodd cyfanswm o **383 o rieni** a gofalwyr ran yn yr arolwg. Roedd y mwyafrif yn fenywod, rhwng 30 a 59 oed ac o ethnigrwydd gwyn.

Mae’r adran yma’n cyflwyno canfyddiadau cychwynnol o’r arolwg. **Nid yw'r data wedi'u haddasu ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli'r holl rieni a gofalwyr ledled Cymru.**

| | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Rhyw | 71% | 29% |

| | 18-29 | 30-39 | 40-49 | 50-59 | 60+ |
|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp oedran | 6% | 28% | 35% | 24% | 8% |

| | (mwyaf difrentied ig) 1 | 2 | 3 | 4 | (lleiaf difrentied ig) 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cwintel amddifadedd | 20% | 18% | 18% | 20% | 24% |

| | Ie | Na |
|---|---|---|
| BAME* | 3% | 97% |

*Grŵp Pobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig hunan-gofnodedig.

# Pa mor dda mae ysgolion wedi ymdopi?

**Rwy'n credu fod Ysgol Gynradd fy mhlentyn wedi ymdrin â sefyllfa coronafeirws yn dda (n=220)***




**Rwy'n credu fod Ysgol Uwchradd /Coleg fy mhlentyn wedi ymdrin â sefyllfa coronafeirws yn dda (n=261)***




*Atebodd cyfranogwyr â phlant yn y ddau fath o ysgol y ddau gwestiwn.

Arolwg rhieni a gofalwyr (14 Medi i 2il o Hydref 2020)

# Gwersi yn ystod y clo

## Yn ystod y clo, yn gyffredinol faint o'r gwaith a osodwyd gan yr ysgol y cymerodd eich plant ran ynddo?




## Pa mor hawdd yw hi i'ch plentyn / plant gael gafael ar adnoddau dysgu ar lein gartref?

| | | Yn ôl cwintel amddifadedd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mwyaf difrentiedig | | | | Lleiaf difrentiedig |
| | All | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| Hawdd iawn | 55% | 53% | 56% | 47% | 60% | 59% |
| Eithaf hawdd | 27% | 24% | 24% | 44% | 22% | 25% |
| Eithaf anodd | 12% | 14% | 16% | 8% | 12% | 10% |
| Anodd iawn | 6% | 9% | 4% | 2% | 6% | 6% |

# Dychwelyd yn nôl i'r ysgol

## Pa mor gyfforddus ydych chi'n teimlo am eich plant yn dychwelyd i'r Ysgol

| | Pawb | Cyfranogwyr oedd yn: Gweithio dros y clo mawr* (n=212) | Cyfranogwyr oedd yn: Ddim yn gweithio dros y clo mawr* (n=164) |
|---|---|---|---|
| Hynod | 41% | 47% | 35% |
| Eithaf | 36% | 38% | 32% |
| Ddim yn | 15% | 10% | 22% |
| Ddim yn, o gwbl | 7% | 5% | 11% |

*Gweithio: naill a'i o adref neu yn y gweithle; ddim yn gweithio gan gynnwys os ar ffyrlo

## Pa mor gyfforddus mae eich plant yn teimlo am fynd yn nôl i'r Ysgol ?#

| | Plant Ysgol Gynradd | Plant Ysgol Uwchradd / Coleg |
|---|---|---|
| Hynod | 63% | 53% |
| Eithaf | 24% | 29% |
| Ddim yn | 10% | 13% |
| Ddim yn, o gwbl | 3% | 5% |

#Cyfranogwyr gyda phlant yn y ddau fath o ysgol y ddau gwestiwn.
Ysgol Gynradd n=222; Ysgol Uwchradd n=259

# Pryderon am ysgolion yn dychwelyd

## Gan feddwl am eich plant yn dychwelyd i'r ysgol, pa mor bryderus ydych chi…..

| | Dim o gwbl | Eithaf | Yn hynod |
|---|---|---|---|
| Eich plentyn yn dal coronafeirws ac yn lledaenu i'w teuluoedd a'u cymunedau | 21% | 44% | 35% |
| Eich plentyn yn mynd yn sâl o glefyd coronafeirws o fod wedi ei ddal yn yr ysgol | 24% | 40% | 36% |
| Addysg eich plentyn yn cael eu heffeithio, gan ysgolion yn dychwelyd yn nôl i'r normal | 30% | 34% | 36% |
| Mae datblygiad cymdeithasol ac emosiynol eich plentyn yn cael ei ddifrodi gan ysgolion sy'n dychwelyd i normal yn rhy araf | 34% | 31% | 35% |

### Cyfran yn bryderus iawn neu'n bryderus iawn, gan y cwintel amddifadedd

| Y rhai mwyaf difrentiedig 1 | 2 | 3 | 4 | Lleiaf difrentiedig 5 |
|---|---|---|---|---|
| 43% | 43% | 33% | 32% | 27% |
| 40% | 46% | 38% | 32% | 28% |
| 39% | 46% | 36% | 32% | 29% |
| 37% | 44% | 35% | 27% | 33% |

Arolwg rhieni a gofalwyr (14 Medi i 2il o Hydref 2020)

# Ymdopi â chau ysgolion

**Pebai eich ysgol yn cau eto yn y dyfodol, pa mor hawdd fyddai hi i chi ymdopi ag addysg gartref a gofal plant yn eich barn chi?**

| | Pawb | Cyfranogwyr sydd: Gofal i un plentyn o dan <18 oed (n=155) | Cyfranogwyr sydd: **Gofal i blant oedran 2+ <18** (n=223) |
|---|---|---|---|
| Yn hawdd iawn | 24% | 30% | 20% |
| Yn eithaf hawdd | 33% | 34% | 32% |
| Eithaf anodd | 21% | 20% | 22% |
| Yn anodd iawn | 22% | 16% | 26% |

# Effaith cyfyngiadau coronafeirws ar blant

## Pa mor bryderus ydych chi am effaith cyfyngiadau coronafeirws ar y canlynol

| | Dim o gwbl | Eithaf | Llawer neu hynod |
|---|---|---|---|
| Iechyd meddwl a lles eich plant | 26% | 35% | 40% |
| Iechyd corfforol eich plant | 49% | 28% | 23% |
| Defnydd eich plant o sgriniau | 39% | 31% | 30% |
| Pwysau eich plant | 69% | 18% | 13% |
| Addysg eich plant | 25% | 34% | 41% |
| Cyfeillgarwch a rhyngweithiadau cymdeithasol eich plant | 32% | 29% | 40% |
| Dyfodol eich plant yn gyffredinol | 27% | 34% | 39% |

Cyfanswm maint y sampl, n=383

**Cyhoeddwyd Hydref 16eg 2020**

# Ymholiadau

**Datblygydd yr Arolwg**

Yr Athro Mark A Bellis

**Data a Dadansoddeg**

Yr Athro Karen Hughes

**Cymorth Dadansoddol**

Dr Emma Harrison

**E-bost**
Ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk

**Ffôn**
02920 227744

**Wê**
icc.gig.cymru

**Polisi a Iechyd Rhyngwladol,
Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**

Llawr 5, Iechyd Cyhoeddus Cymru,
2 Capital Quarter,
Stryd Tyndall,
Caerdydd, CF10 4BZ

## Sut wyt ti?

Am wybodaeth cyffredinol ar sut i edrych ar ôl eich hunan, eich ffrindiau a'ch teulu yn ystod cyfyngiadau coronafeirws ymwelwch â:

**icc.gig.cymru/sut-wyt-ti**

